# Cytundeb cyflwyno e-draethawd ymchwil

## Gwybodaeth Adneuo

Mae'r cytundeb cyflwyno e-draethawd ymchwil hwn yn cofnodi'r dewis a wnaed ar gyfer rhannu'r gwaith yn electronig trwy ystorfa sefydliadol Prifysgol Abertawe, Cronfa.

Ni fydd traethodau ymchwil sydd wedi eu cyflwyno'n electronig ar gael i'r cyhoedd ar y we heb ganiatâd yr awdur.

Dan rai amgylchiadau, nid oes modd rhoi caniatâd ar gyfer mynediad ar-lein, neu efallai bod rhaid cyfyngu ar fynediad am gyfnod penodedig; er enghraifft, i barchu amodau noddwyr neu am resymau cyfrinachedd masnachol. Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno cyfyngu ar fynediad i'w traethawd ymchwil ddeall bod y sefydliad yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a'r Rheoliadau Amgylcheddol 2004 (EIR), sy'n rhoi hawl mynediad i unrhyw wybodaeth a gaiff ei chadw gan Brifysgol Abertawe, yn cynnwys traethodau ymchwil, oni bai bod eithriad yn berthnasol.

**Cymorth Ymchwil Llyfrgell**

E-bost. openaccess@swansea.ac.uk

Ffon. 01792 604567

V.1.2a 2018

## Cwblhewch yr adran hon

Atebion angenrheidiol *

**Teitl** *

**Awdur** * (e.e. Smith, Andrew B.)

***Goruchwyliwr (s)*** * *(e.e. Smith, Andrew B. and Jones, Boris A.)*

***Geiriau allweddol y pwnc*** *(dylid defnyddio coma i wahanu'r gwahanol rai)*

***Enw'r cymhwyster*** * *(e.e. Ph.D., M.D.)*

**Noddwyr - arianwyr**

**Rhif grant**

**Coleg ac Adran** *

**Rhif myfyriwr** *

**Cyfeiriad e-bost** *

**Rhif adnabod ORCID** https://orcid.org/

**Pa ddull mynediad fyddai orau gennych ar gyfer data ymchwil?**

## Datganiad awdur:

i. Rwy’n datgan mai fi yw awdur y gwaith hwn ac yn cadarnhau y byddaf yn cyflwyno fersiwn derfynol wedi ei harholi o’r traethawd ymchwil ar fformat electronig i Wasanaeth E-draethawd ymchwil Prifysgol Abertawe. Caiff y copi ei archifo fel cofnod o’r gwaith yn y System Gwybodaeth Ymchwil (RIS).

ii. Deallaf y caiff y fersiwn electronig ei chyflwyno i Cronfa, ystorfa sefydliadol Prifysgol Abertawe, gan weinyddydd yr ystorfa. Bydd metadata’r llyfryddiaeth a’r crynodeb ar gael yn syth. Cyhoeddir fersiwn testun cyflawn o’r traethawd ymchwil ar y we oni bai y cyfyngir yn ffurfiol ar fynediad.

iii. Deallaf y gallaf gyflwyno ail fersiwn o’r traethawd ymchwil wedi ei hailolygu a fydd ar gael yn Cronfa, yr ystorfa sefydliadol, os yw’r traethawd ymchwil yn cynnwys deunydd sydd o dan hawlfraint trydydd parti neu ddeunydd cyfrinachol yr ydw i’n dymuno peidio ei gynnwys. Deallaf mai’r awdur sy’n gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau neu unrhyw gynnwys sydd wedi ei hepgor yn ddamweiniol o gynnwys y traethawd ymchwil.

iv. Rwy’n datgan mai ffrwyth fy ngwaith ymchwil fy hun yw’r traethawd ymchwil, oni bai fy mod yn nodi fel arall. Cydnabyddir pob ffynhonnell arall mewn. troednodiadau gyda chyfeiriadau clir ac mae llyfryddiaeth wedi ei hatodi. Rydw i wedi rhoi gofal rhesymol i sicrhau bod y gwaith yn wreiddiol. Cyn belled ag y gwn, nid yw’r gwaith yn torri unrhyw gyfraith nac yn torri amodau unrhyw. hawlfraint sy’n perthyn i drydydd parti nac unrhyw hawliau Eiddo Deallusol arall.

v. Deallaf fy mod yn cadw’r hawl i gyhoeddi’r gwaith ar ei fformat presennol neu ar fformat gwahanol yn y dyfodol mewn man arall. Nid yw’r hawliau a roddaf i ystorfa Prifysgol Abertawe yn unigryw a does dim breindal i’w dalu.

vi. Deallaf y bydd Prifysgol Abertawe yn gwarchod yr hawl i gyfyngu neu atal mynediad i fersiwn electronig o’m gwaith, pe bai angen i Brifysgol Abertawe wneud hynny.

vii. Cytunaf y gall Prifysgol Abertawe gopïo, cyfieithu neu gadw’r gwaith yn electronig a chreu fersiwn mewn unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas mynediad a chadwraeth at y dyfodol. Does dim rheidrwydd ar Brifysgol Abertawe i atgynhyrchu nac arddangos y gwaith ar yr un fformat na’r un cydraniad â phan gyflwynwyd y gwaith yn wreiddiol. Yn ogystal, cytunaf y gall Prifysgol Abertawe gadw copi at ei defnydd o fewn y sefydliad.

viii. Deallaf y bydd metadata’r llyfryddiaeth a’r crynodeb ar gael mewn catalogau mynediad cyhoeddus ac y bydd modd chwilio amdanynt trwy beiriannau chwilio

ar y we. Bydd Prifysgol Abertawe yn caniatáu i wasanaeth traethodau ymchwil electronig y Llyfrgell Brydeinig (EThOS) a gwasanaeth Casglu Traethodau. Ymchwil Cymru Llyfrgell Genedlaethol Cymru gasglu metadata'r llyfryddiaeth a threfnu bod y gwaith ar gael yn unol â thelerau ac amodau eu gwasanaeth.

ix. Os oes anghytundeb yn codi rhwng yr awdur a goruchwyliwr(wyr) mewn perthynas â dal traethawd ymchwil yn ôl, penderfyniad y goruchwyliwr(wyr) fydd y penderfyniad terfynol.

## Amodau Mynediad:

### Ticiwch un blwch yn unig:

☐ 1. Cyflwyno fersiwn electronig mynediad agored yn syth; copi wedi ei argraffu ar gael yn y Llyfrgell

☐ 2. Cyfyngu ar fersiwn electronig y traethawd ymchwil dros gyfnod y gwaharddiad (uchafswm o bum mlynedd); copi cyfyngedig wedi ei argraffu yn y Llyfrgell

☐ 3. Cyflwyno fersiwn electronig wedi ei golygu; copi wedi ei argraffu ar gael yn y Llyfrgell

☐ 4. Cyfyngiad ffurfiol parhaol ar y fersiwn electronig

### Dewiswch rif opsiwn yma:

- Opsiwn **X***
- Rhowch ddyddiad diwedd y cyfnod gwahardd (os yn berthnasol) dd/mm/bbbb
- Os ydych chi'n dymuno gosod cyfyngiad ar fynediad i fersiwn electronig eich traethawd ymchwil, nodwch y rheswm isod..

## Dewiswch opsiynau perthnasol gyda **X:**

| | |
|---|---|
| ☐ | Disgwyl cyhoeddi fel monograff neu gyfres o erthyglau |
| ☐ | Mae'r traethawd ymchwil yn cynnwys deunydd sy'n fasnachol sensitif a byddai rhyddhau'r deunydd hwn yn niweidio lles masnachol yr awdur, y Brifysgol neu noddwr allanol. |
| ☐ | Mae'r traethawd ymchwil yn cynnwys deunydd o dan hawlfraint trydydd parti a does dim caniatâd i'w ddefnyddio'n gyhoeddus. |
| ☐ | Ystyriaethau moesegol/diogelu data. |
| ☐ | *Arall (rhowch fanylion)* |

Rwy'n caniatau I Brifysgol Abertawe drefnu bod fy nhraethawd ymchwil ar gael i'r cyhoedd ar-lein

Ydw / Nac Ydw sydd ei angen yma*: ☐

## Cadarnhaf fod y wybodaeth ar y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir.

Llofnod ..............................................................

Dyddiad ..............................................................